# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Ionawr 2025

Amser: 13.32 - 15.45

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14795

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Laura Anne Jones AS. Croesawodd y Pwyllgor Peter Fox AS a oedd yn driprwyo yn ei lle.

## 2 Sesiwn dystiolaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru).

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

### 3.1 SL(6)560 – Cyfarwyddyd Mesurau Diogelwch Ac Argyfwng (Ymgymerwyr Dŵr A Charthffosiaeth A Thrwyddedeion Cyflenwi Dŵr) (Diwygio A Dirymu) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(6)561 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 5.1 SL(6)538 – Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth â'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

### 5.2 SL(6)557 – Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

**5.3 SL(6)565 – Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024**

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

**6.1 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygio Canlyniadol) 2025**

Nododd y Pwyllgor yr llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

**6.2 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd grwpiau rhyngweinidogol**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip:

**6.3 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Cyd-drefniant ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Safonau Marchnata a Chynhyrchion Organig) (Darpariaethau Trosiannol) (Diwygio) 2025**

Nododd y Pwyllgor y llythyr a'r Datganiad Ysgrifenedig: gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

**6.4 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) ac Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2025**

Nododd y Pwyllgor y llythyr a'r Datganiad Ysgrifenedig: gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

## 7 Papurau i’w nodi

### 7.1 Gohebiaeth oddi wrth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Sesiwn graffu ar y cyd gyda Gweinidogion ar gyfiawnder troseddol

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

### 7.2 Gohebiaeth gan y Llywydd: Cynrychiolaeth ar gyrff rhyngseneddol

Nododd y Pwyllgor y llythyr a chytunwyd i ysgrifennu at y Llywydd.

### 7.3 Gohebiaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni: Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar Ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth â’r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 9 Sesiwn dystiolaeth gyda’r Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor dystiolaeth y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni.

## 10 Cytundebau rhyngwladol: Adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft.

## 11 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig): Trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4 a Memorandwm Rhif 5) ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig). Hefyd, trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno, yn amodol ar fân newidiadau, a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tybaco a Fêps

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunwyd i drafod adroddiad drafft yn ystod y cyfarfod nesaf.

## 13 Is-ddeddfwriaeth a osodwyd yn Saesneg yn unig

Trafododd y Pwyllgor y mater a chytunwyd i ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Phwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin.

## 14 Adroddiad monitro

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad monitro a chytunodd arno. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth i ofyn am ragor o wybodaeth am ei rôl.

## 15 Offerynnau statudol a drafodwyd yn flaenorol

Trafododd y Pwyllgor bapur sy'n cynnwys gwybodaeth am offerynnau statudol a drafodwyd gan y Pwyllgor yn 2024 lle mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd yn cyflwyno offeryn diwygio i gywiro gwallau a nodwyd gan y Pwyllgor. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru.

## 16 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad)

Trafododd y Pwyllgor lythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio at y Llywydd. Cytunodd y Pwyllgor i wahodd yr Ysgrifennydd Cabinet i sesiwn dystiolaeth ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

## 17 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26: Trafod y dystiolaeth ysgrifenedig

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth ysgrifenedig a gafodd gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni.